Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfarwyddwr Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol

## Y Gyfarwyddiaeth Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol

## Y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol

## Llywodraeth Cymru

Cynnwys


1. **Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Reg Kilpatrick**
2. **Cefndir Llywodraeth Cymru**
3. **Rôl y Gyfarwyddiaeth Busnes a Rhanbarthau**
4. **Cyfrifoldebau Allweddol**
5. **Manyleb y person**
6. **Cyfleoedd i Ddatblygu yn y Swydd**
7. **Sut i Wneud Cais**
8. **Y broses ddethol**
9. **Telerau'r penodiad**

## 1. Croeso

### Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Reg Kilpatrick

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiadau uchelgeisiol a radical y byddwn yn eu cyflawni dros y tymor hwn o bum mlynedd gan y llywodraeth i wella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'r Rhaglen yn seiliedig ar werthoedd Cymreig neilltuol sef cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n gosod cydweithio o flaen cystadleuaeth, gan ddangos sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau tegwch i bawb a dileu anghydraddoldeb ym mhob rhan o gymdeithas.

Rydyn ni am greu Cymru gryfach, wyrddach a thecach ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol (CRLG) rydym hefyd am greu cymunedau sy'n ddiogel. I wneud hynny, mae angen inni ddeall a rhag-weld y peryglon sy'n wynebu Cymru a'i dinasyddion - er enghraifft o ganlyniadau newid hinsawdd i effaith terfysgaeth ryngwladol - fel y gallwn weithio gyda'n partneriaid i baratoi ar eu cyfer. Gyda chefnogaeth ein partneriaid, rydym yn cyfrannu at newid sylfaenol ar draws y rhan fwyaf o feysydd ein gwaith, gan ail-lunio sut y mae menywod a phobl ifanc yn y system gyfiawnder yn cael eu trin, cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r heddlu a'r gwasanaethau brys eraill a datblygu ein dull o baratoi ar gyfer argyfyngau sifil posibl ac ymateb i argyfyngau.

Rôl heriol, uchel ei phroffil yw hon, sy'n cyfuno datblygu polisi strategol dag ymateb gweithredol sy'n symud yn gyflym gan ddarparu arweiniad o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus. Yn ogystal ag elfen datblygu polisi'r rôl, mae'n ofynnol gweithio gyda chydweithwyr o fewn a'r tu hwnt i'r llywodraeth ar adegau o argyfwng pan fydd digwyddiadau'n dod i'r amlwg yn annisgwyl ac yn gofyn am arweinyddiaeth gyflym a phendant. Ar ben hynny, mae'r adolygiad o swyddogaethau Argyfyngau Sifil Posibl yn cynnig cyfle ar gyfer newid ar draws y sector i nifer o swyddogaethau allweddol ac ni fydd hynny yn bosibl ond trwy berthynas gref, ffocws ar reoli perfformiad a chyflawni effeithiol. Rwyf yn chwilio am Gyfarwyddwr eithriadol sy'n gallu gweithio'n hyderus gyda Gweinidogion i ddatblygu polisi strategol a darparu ymateb gweithredol mewn sefyllfaoedd pwysau uchel sy'n symud yn gyflym, gyda sawl partner.

Os ydych yn meddwl eich bod yn addas am y rôl hon ac yn gallu arwain, herio, newid a chydweithio i helpu i greu cymunedau mwy diogel a chynaliadwy, rwyf yn edrych ymlaen at ddarllen eich cais.

## 2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o tua £18 biliwn ac mae'n gyfrifol am ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaeth a'r amgylchedd.

Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru ac sy'n gwneud penderfyniadau mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, sef corff deddfu Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Mae gweithlu o ryw 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gydag oddeutu hanner y rhain yn gweithio yng Nghaerdydd a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad . Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain a Brwsel hefyd a rhwydwaith tramor ar gyfer gwaith masnach a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr sy'n esiampl i eraill ac mae ein gwaith yn cael ei danategu gan Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y Bwrdd, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan hyrwyddwyr ar lefel uchel, targedau amrywiaeth a osodir i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl ar bob lefel a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad ac i wneud addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle i sicrhau cydraddoldeb i'n cydweithwyr anabl. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 – 2026 yn datgan ein bwriad o fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel, sefydliad sy'n wrth-hiliol ac sy'n gwrthwynebu gwahaniaethu o bob math. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn nodi ein hymrwymiad i greu Cymru wrth-hiliol, y gallwn i gyd fod yn falch o berthyn iddi ac y gallwn ffynnu ynddi.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r negodiadau rhyngwladol dilynol – ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE ac ar gytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – wedi arwain at oblygiadau sylweddol i Gymru ac i waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu.

Yn ogystal, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella gwaith datblygu polisi a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gorff dwyieithog; caiff deddfwriaeth ei chreu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

## 3. Rôl y Gyfarwyddiaeth Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol

Grŵp newydd yw'r Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol (CRLG) a grëwyd gan y newidiadau diweddar i strwythurau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys dwy gyfarwyddiaeth: Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a'r Gyfarwyddiaeth Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol yn cyflwyno ystod eang o nodau polisi, amcanion a rhaglenni trawsbynciol ar draws yr agendâu diogelwch a chyfiawnder cymunedol gweithredol gan ddefnyddio partneriaethau datblygedig ac effeithiol, gan weithio'n agos ag ystod o randdeiliaid o lywodraeth leol, y gwasanaethau brys, y lluoedd arfog, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ogystal ag adrannau eraill o'r llywodraeth.

Nod cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn fwy cydnerth yn ariannol, fel eu bod yn darparu'r ystod gywir o wasanaethau effeithiol i'w cymunedau ac yn darparu arweinyddiaeth dda sy'n hyrwyddo llesiant eu hardaloedd. Mae'n ceisio creu'r amodau ar gyfer cynrychiolaeth ddemocrataidd well a mwy amrywiol a fydd yn helpu i lywio'r gwasanaethau hynny i ymateb orau i'r galw lleol, gan ddod â gwasanaethau o fewn ac ar draws cynghorau ac o sefydliadau eraill ynghyd.

Mae hyn yn cydategu gwaith prif feysydd gwaith y Gyfarwyddiaeth Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol sy'n ymwneud â phlismona, gwasanaethau tân ac achub, y lluoedd arfog ac arwain swyddogaethau cydnerthedd, argyfyngau sifil posibl a chynllunio Llywodraeth Cymru.

Cyfarwyddiaeth eithriadol o brysur ac amrywiol yw hon gyda chyfres eang o gyfrifoldebau polisi trawsbynciol sy'n golygu cydweithio'n agos ag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru; gwasanaethau cyhoeddus a brys ledled Cymru ar y lefel uchaf; a nifer o adrannau Whitehall. Mae gan y Gweinidogion lefel uchel o ddiddordeb yng ngwaith y Gyfarwyddiaeth ac ar hyn o bryd, mae'n gweithio i'r Prif Weinidog ar faterion risg a pharodrwydd; i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar faterion diogelwch cymunedol a phlismona; i'r Dirprwy Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y gwasanaeth tân a'r lluoedd arfog.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cwmpasu tair elfen weithredol eang ond cysylltiedig. Mae'n goruchwylio polisi mewn perthynas â'r gwaith o weithredu troseddu a chyfiawnder o ddydd i ddydd yng Nghymru, gan gynnwys Cyfiawnder Ieuenctid, a chyfrannu at yr agenda troseddu a chyfiawnder ehangach drwy waith gyda phartneriaid sy'n cynnwys y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, gan greu cyswllt â chydweithwyr polisi perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru. Mae cydweithio agos gyda'r pedwar Heddlu ar lefel Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a thrwy'r perthnasoedd cryf a chynhyrchiol a grëwyd gan Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru mae'r Gyfarwyddiaeth yn helpu i bennu'r agenda strategol ar gyfer plismona yng Nghymru. Er nad yw plismona yn wasanaeth datganoledig, mae'r berthynas weithredol gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig eraill yn hanfodol i gyflawni llawer o bolisïau'r llywodraeth yn effeithiol a diogelwch cymunedau Cymru. Mae'r rôl hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y berthynas honno'n gweithio'n dda.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth gyfrifoldeb heftyd dros bolisi'r Gwasanaeth Tân ac Achub datganoledig, gan yrru blaenoriaethau Gweinidogion o ran diogelu'r economi ac effeithiolrwydd, tra'n cynnal y safonau uchaf o ran iechyd a diogelwch i ddiffoddwyr tân a'r

cyhoedd. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn goruchwylio perthynas Llywodraeth Cymru â'r Lluoedd Arfog, gan gynnwys cyn-filwyr. Mae hwn yn faes cyffrous sy'n cynnig posibiliadau i gefnogi personél a chyn-filwyr gwasanaethau yng Nghymru, gan weithio gyda Chomisiynydd Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, a benodwyd yn ddiweddar.

Mae'r ail elfen yn arwain swyddogaethau cydnerthedd, argyfyngau sifil posibl chynllunio brys Llywodraeth Cymru ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer y trefniadau parodrwydd corfforaethol y mae eu hangen i gefnogi adrannau polisi os bydd argyfwng yn datblygu yn gyflym. Mae hefyd yn arwain y swyddogaeth asesu risg, gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus i greu trosolwg cynhwysfawr o'r risgiau sy'n wynebu Cymru a'i chymunedau ac yna i ddatblygu cynlluniau i ymateb i'r risgiau hynny. Mae hynny'n cynnwys gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses Asesu Risg Diogelwch Gwladol.

Gan ddysgu'r gwersi gan Brexit a Covid, mae adolygiad sylfaenol o argyfyngau sifil posibl a pharodrwydd am argyfwng ar y gweill a fydd yn gyfle sylweddol i adolygu a diwygio'r dull strategol o ymdrin â'r maes hwn. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn gweithio'n agos ar bolisi gyda Llywodraeth y DU ar feysydd megis gwrthderfysgaeth, gwrtheithafiaeth, troseddau difrifol a threfnedig, a thwyll difrifol. Er mai materion heb eu datganoli yw'r rhain, mae'r mesurau lliniaru, parodrwydd ac ymateb yn dibynnu ar wasanaethau datganoledig ac mae cysylltiad agos iawn rhyngddynt a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, bu'r Gyfarwyddiaeth yn ganolog i'r gwaith o gydlynu ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, gan reoli'r ymateb o ran argyfyngau sifil posibl, arwain yr Adolygiad 21 Diwrnod o reoliadau, mesurau a mesurau lliniaru i gynghori'r Gweinidogion ar eu dull o fynd i'r afael â'r pandemig. Arweiniodd hefyd y datblygiad polisi ar adfer a'r goblygiadau i bolisi Llywodraeth Cymru yn ehangach a chynllunio'r trawsnewid o statws rhybudd i fusnes fel arfer. Mae Covid-19 yn parhau i fod yn fygythiad y mae Gweinidogion yn ei gymryd o ddifrif felly mae gan elfen Ailgychwyn ac Adfer y Gyfarwyddiaeth rôl barhaus wrth roi sicrwydd bod y llywodraeth yn barod ac yn gallu ymateb yn gyflym ac yn bendant i unrhyw amrywiolyn newydd sy'n dod i'r amlwg.

**Diben y Swydd**

Nid swydd bolisi nodweddiadol yw hon. Mae'r Cyfarwyddwr yn hanfodol i barodrwydd Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus i ymateb i argyfyngau sifil posibl a digwyddiadau tyngedfennol eraill. Mae angen iddynt fod yn barod ac yn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol, gan gynghori'r Gweinidogion a'r Cabinet ar fyrder yn aml ar sail gwybodaeth gyfyngedig, tra'n darparu arweinyddiaeth a chanllawiau awdurdodol i uwch swyddogion mewn asiantaethau sy'n ymateb. Mae hyn yn gofyn am lefelau uchel o hygrededd gydag uwch bartneriaid a'r Gweinidogion a dealltwriaeth ddatblygedig iawn o ddarparu ymateb gweithredol, a hynny am gyfnod estynedig yn aml, a chydbwyso'r risgiau sydd ynghlwm wrth hynny,

Mae elfennau polisi a gweithredu sylweddol i'r rôl y mae angen eu rheoli ochr yn ochr â'r swyddogaethau argyfyngau sifil posibl. Bydd angen i'r Cyfarwyddwr ddeall a llywio'r setliad datganoli yn llwyddiannus, gan gydnabod materion cymhleth gwleidyddiaeth, llywodraethiant ac atebolrwydd rhwng gwledydd y DU.

**Prif ddiben rôl y Cyfarwyddwr yw:**

- Goruchwylio polisi a strategaeth i nodi, deall a lliniaru risgiau cenedlaethol, creu a chynnal a chadw Cofrestr Risgiau Cenedlaethol Cymru a chyfraniad Llywodraeth Cymru at Gofrestr Risgiau Diogelwch Gwladol y DU.
- Cyfarwyddo gwaith Cymru mewn perthynas â chydnerthedd, argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfyngau Cymru, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus i ddatblygu ymagweddau effeithiol a chydgysylltiedig at barodrwydd ac ymateb i argyfyngau.
- Darparu arweinyddiaeth weladwy ac ymgysylltiol ar gyfer ymatebion gweithredol i ddigwyddiadau tyngedfennol, argyfyngau, neu argyfyngau sifil posibl, gan weithio ar lefel aur gydag ymatebwyr Categori 1 a 2 i roi trefniadau ar waith yn gyflym ac yn effeithiol.
- Goruchwylio buddiannau Llywodraeth Cymru ym mholisi'r DU ar wrthderfysgaeth a gwrtheithafiaeth a'r goblygiadau gweithredol fel y maent yn ymwneud â Chymru.
- Datblygu ymateb seiber Llywodraeth Cymru gan gydweithio'n agos gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.
- Arwain mewnbwn Llywodraeth Cymru i Operation Bridges.
- Goruchwylio rhaglenni aml-sefydliad i wella gwasanaethau ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a chyfiawnder i fenywod ynghyd â pholisi gweithredol ar droseddu a phlismona yng Nghymru.
- Arwain polisi mewn perthynas â'r Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gynnwys diwygio'r gwasanaethau.
- Goruchwylio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a chyn-filwyr, gan gynnwys ein hymagwedd at Strategaeth Cyn-filwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adolygiad o Ystadau Amddiffyn.
- Rheoli cyllideb o £37.8m o refeniw a £2.1m o gyfalaf.

## 4. Cyfrifoldebau Allweddol

- Ddarparu un ffynhonnell awdurdodol o gyngor i'r Gweinidogion yn ystod digwyddiad mawr neu argyfwng sifil, ynghyd ag arweinyddiaeth awdurdodol i bartneriaid sy'n ymateb ar draws y sector cyhoeddus.
- Llunio a chyfathrebu cyfeiriad strategol clir ac arweinyddiaeth, gan addasu'n arloesol i'r gofynion am wella a newid, gan gynnwys newid o ran diwylliant i sicrhau newid polisi a gwella gwasanaethau.
- Arweinyddiaeth sefydliadol effeithiol, adeiladu ac ysgogi timau, gan gynnwys cyffredinolwyr a gweithwyr proffesiynol arbenigol, cymwysedig iawn.
- Darparu llywodraethiant atebol, gan sicrhau'r safonau uchaf o stiwardiaeth wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â rheolaeth ariannol, cydymffurfiaeth, a gwerth am arian.
- Hyrwyddo nodau a ffyrdd o weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn egwyddor graidd wrth greu polisïau a darparu gwasanaethau.
- Cynnal enw da, uniondeb a hygrededd Llywodraeth Cymru fel sefydliad sy'n broffesiynol iawn yn y ffordd y mae'n cynnal ei waith a'i berthnasau ac sy'n deg wrth ymdrin â sefydliadau eraill.
- Fel Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, yn cymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau a rhwymedigaethau cyfunol fel aelod o Dîm Uwch-reolwyr Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol a chyfrannu at ddatblygiad ehangach Llywodraeth Cymru.

## 5. Manyleb y Person

Rydym yn chwilio am uwch arweinydd a all weithredu'n effeithiol ar lefelau uwch ar draws sawl sefydliad, gan herio dulliau cyfredol o sbarduno gwelliant cyson, cydweithio a dod â chysondeb i safbwyntiau sy'n gwrthdaro'n aml a darparu cyngor doeth ac awdurdodol ar adegau o gryn newid.
Rôl uchel ei phroffil yw hon a bydd gan ddeiliad y swydd hanes cryf o gyflawni ar lefel uwch reolwr a bydd yn meddu ar ystod o sgiliau a phrofiad i arwain y Gyfarwyddiaeth yn effeithiol. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos y canlynol:

### Hanfodol

- Lefelau uchel o gadernid personol a phroffesiynol a'r gallu i fod yn bwyllog wrth weithio o dan bwysau, o bosibl am gyfnodau hir.
- Arweinyddiaeth sefydliadol gref a'r gallu i adeiladu, ysgogi a chynnal timau.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, negodi a dylanwadu rhagorol, yn enwedig i ysgogi a dylanwadu ar uwch randdeiliaid.
- Y gallu i feithrin perthnasoedd personol cryf a chynhyrchiol ac ennill hyder uwch gydweithwyr o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru.
- Profiad o weithio ar lefel uwch ar ddatblygu polisi, gyda'r gallu i ddatblygu polisi mewn meysydd cymhleth.
- Y gallu i weithio'n llwyddiannus mewn cydweithrediad ag ystod eang o bartneriaid datganoledig a heb eu datganoli, gan gynnwys llywodraeth leol, GIG, y sector gwirfoddol a'r gwasanaethau brys i sicrhau canlyniadau cymhleth sy'n cyrraedd y tu hwnt i ffiniau eu cyfrifoldebau eu hunain.
- Gweithio fel rhan annatod o dîm uwch-reolwyr i gyflawni amcanion y Grŵp ac i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad at gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol Llywodraeth Cymru.
- Mae dealltwriaeth a phrofiad o gynllunio at argyfyngau, parodrwydd ac asesu risg, a'r fframwaith cyfreithiol a pholisi ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn y DU yn hanfodol.
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio o'i fewn a'r gallu i weithio'n effeithiol gyda'r Gweinidogion a chynghorwyr y Cabinet ac ennyn eu hyder a'u parch.
- Y gallu i fyfyrio ar eich profiadau bywyd eich hun a dysgu oddi wrthynt a defnyddio'r profiad hwn o weithio'n effeithiol ac o arwain tîm yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau o bwysau parhaus, craffu, ac amwysedd.

### Dymunol

- Byddai arbenigedd a phrofiad perthnasol mewn polisi troseddu a chyfiawnder, a gwybodaeth am y gwasanaeth tân yn fanteisiol iawn, ond nid yn hanfodol.

**Cymwyseddau**

Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos cymhwysedd yn erbyn sgiliau craidd SCS a nodir fel rhan o'r fframwaith Sgiliau Proffesiynol ar gyfer Llywodraeth.

**Y Clwstwr Strategol – Gosod y Trywydd**

***Gweld y Darlun Cyflawn***

- Crisialu a llywio rôl a diben yr Adran o ran cyflawni blaenoriaethau'r Gwasanaeth Sifil, er budd y cyhoedd a'r economi.

***Newid a Gwella***

- Chwilio am gyfleoedd i arloesi a bod yn ddigon dewr i gymryd risgiau a chymryd camau sylweddol i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud.

***Gwneud Penderfyniadau Effeithiol***

- Cynnwys y rhanddeiliaid a'r partneriaid cywir yn gynnar wrth wneud argymhellion neu benderfyniadau a pharhau i feithrin cysylltiadau â hwy.

**Y Clwstwr Pobl - Ymwneud â Phobl**

***Arwain a Chyfathrebu***

- Bod yn weladwy a chredadwy iawn ar y lefelau uchaf ar draws a'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil, gan gyfathrebu pwrpas a chyfeiriad gydag eglurder a brwdfrydedd.

***Gweithio ar y Cyd ac mewn Partneriaeth***

- Mynd i'r afael â materion a herio rhagdybiaethau ar y lefelau uchaf gyda phartneriaid cyflenwi, rhanddeiliaid a chleientiaid mewn modd cadarn ond adeiladol.

**Y Clwstwr Perfformiad**

***Sicrhau Gwerth am Arian***

- Cadw ffocws clir ar ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl, gan gwestiynu gwerth gweithgareddau yn erbyn blaenoriaethau strategol drwy'r amser.

***Rheoli Gwasanaeth o Safon***

- Diffinio ac integreiddio strwythurau, systemau ac adnoddau clir y mae eu hangen ar draws yr Adran i hyrwyddo'r broses o ddarparu gwasanaethau yn effeithlon.

***Cyflawni Canlyniadau***

- Pennu, cynnal a sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer yr Adran, gyda blaenoriaethau a chanlyniadau prosiect sydd â ffocws cryf.

**Y Gymraeg**

Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ond byddent yn gaffaeliad. Byddwn yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ar benodiad, a byddwn yn eu cefnogi'n llawn gyda phecyn hyfforddi pwrpasol. Fel sy'n digwydd gyda gofynion eraill, gellir trafod addasiadau rhesymol ar benodiad.

## 6. Cyfleoedd Datblygu a Gynigir gan y swydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol yn y sefydliad ac ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Bydd deiliad y swydd yn cael ei gefnogi a'i annog i ganolbwyntio ar ei ddatblygiad ei hun a'i dimau.

## 7. Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylid gwneud cais drwy ddefnyddio system ymgeisio Llywodraeth Cymru a dylid cyflwyno'r cais erbyn **23:55 ar 14 Rhagfyr 2022 fan hwyraf**. I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Os oes gennych amhariad sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost at: RecriwtioUWS@llyw.cymru i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol er mwyn cyflwyno'ch cais.

**Recriwtio dienw**

**Dylech ddileu eich enw o'ch CV a'ch datganiad personol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais.**

Fel rhan o'r broses recriwtio, mae'n ofynnol ichi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau**;
- **CV cyfredol** yn nodi hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a llwyddiannau allweddol;
- **Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4** yn esbonio sut y mae'ch cymwysterau, eich sgiliau, eich priodoleddau a'ch profiadau proffesiynol yn eich gwneud yn addas i'r rolau hyn ac, yn benodol, sut yr ydych yn bodloni manyleb y person.

**Gwybodaeth am amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Gofynnir ichi gadarnhau rhywfaint o wybodaeth am amrywiaeth ar eich ffurflen gais. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod pob grŵp yn cael ei drin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb eu hateb.

**Cwestiynau a thrafodaeth anffurfiol**

Os hoffech drafod y rôl hon ymhellach, anfonwch e-bost i RecriwtioUWS@llyw.cymru

**Problemau technegol ar-lein -** E-bostiwch RecriwtioUWS@llyw.cymru

## 8. Y Broses Ddethol

### Trosolwg

Bydd y Tîm Recriwtio yn cydnabod eich cais drwy system Llywodraeth Cymru, a phan fo'n briodol byddwch yn cael gwybod am ganlyniad y cyfarfod llunio rhestr fer a gynhelir ar **19 Rhagfyr.**

### Asesiadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn unig

Bydd y gweithgareddau isod yn rhan o'r asesiad cyffredinol sydd ei angen ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwn.

- **Profion seicometrig ar-lein**– bydd y rhain yn cynnwys rhesymu rhifiadol a geiriol a thrafodaeth â seicolegydd. Byddwch yn cael dolen at y profion ar-lein ymhen 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod llunio rhestr fer. Os ydych chi wedi cwblhau'r profion seicometrig ar-lein yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ar gyfer swydd ar yr un radd, ni fydd angen ichi eu gwneud eto ar gyfer yr ymarfer recriwtio penodol hwn.

- **Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Staff** – bydd y rhain yn digwydd **19 Ionawr 2023**. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.

- **Cyfweliadau Panel a Chyflwyniad** – mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer **dechrau mis Chwefror 2023**. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd y cyfweliadau'n para tua 45 munud. Bydd y Panel yn cael adborth ar ôl ichi gwblhau'ch profion seicometrig a chymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu â staff, cyn ichi gael cyfweliad. Bydd eich cyfweliad yn ystyried sut y mae eich sgiliau a'ch profiad fel y maent wedi'u hamlinellu yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y rôl. Bydd ymgeiswyr yn cael o leiaf wythnos o rybudd o bwnc y cyflwyniad. Byddwch cystal â nodi bod rhaid ichi wneud y cyflwyniad heb ddefnyddio taflenni, na dyfeisiau electronig oni bai eu bod yn rhan o addasiad rhesymol. Ond mae croeso ichi ddefnyddio cardiau sbardun.

- **Sgwrs gartrefol** - Bydd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cymryd rhan mewn 'sgwrs gartrefol' gyda'r Prif Weinidog. Mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer **canol - diwedd mis Ionawr 2023.** Bydd manylion pellach yn dilyn.

Nodwch y gellir gwneud addasiadau ar unrhyw gam o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam neu gyflwr iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Cysylltwch â **RecriwtioUWS@llyw.cymru** i drafod addasiadau ar gyfer unrhyw ran o'r broses.

Bydd y panel dethol yn cynnwys:

- **Martin Spencer**, Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil a Chadeirydd y Panel
- **Reg Kilpatrick**, Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol
- **Tim Moss**, Prif Swyddog Gweithredu, Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
- **Sioned Evans,** Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

**Bywgraffiadau**

**Martin Spencer, Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil a Chadeirydd y Panel**

Mae gan Martin gefndir mewn economeg, ymgynghori ym maes technoleg, trawsnewid ac arweinyddiaeth busnes. Yn fwyaf diweddar, roedd Martin yn Uwch Is-lywydd yn NTT DATA, busnes gwasanaethau TG byd-eang sy'n darparu rhai o brosiectau seilwaith a thrawsnewid digidol mwyaf y byd.

Cyn hynny, mae Martin wedi bod yn arweinydd mewn rolau yn y DU ac Ewrop gyda Capgemini a KPMG Consulting. Roedd Martin hefyd yn gyfarwyddwr yn Detica, y cwmni ymgynghori busnes a thechnoleg rhyngwladol sy'n arbenigo mewn dadansoddi data a deallusrwydd gwybodaeth.

Mae Martin yn Gyfarwyddwr Anweithredol gydag Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG, Tŷ'r Cwmnïau, Ofsted a'r Swyddfa Twyll Difrifol. Penodwyd Martin yn Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2021.

**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol**



Dechreuais fy ngyrfa gyda British Airways fel peiriannydd awyrennau cyn ennill gradd mewn Gwyddorau Ymddygiadol. Ar ôl graddio, ymunais â'r Swyddfa Gymreig fel ystadegydd a gweithio mewn amryw o feysydd gan gynnwys demograffeg, ystadegau addysg a chyfarwyddo Cofrestrfa Canser Cymru. Symudais i allan o'r proffesiwn i reoli cyllideb GIG Cymru a dyraniadau'r awdurdodau iechyd cyn noddi Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn adran bolisi Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Fe wnes i gydweithio'n agos â Chwmni Mileniwm Cymru yn ystod ei gyfnod datblygu er mwyn sicrhau cymeradwyaeth wleidyddol ac ariannol i'r prosiect a gwelais y cyfnod adeiladu'n dechrau.

Ar ôl cyfnod yn yr Adran Polisi Economaidd yn noddi Awdurdod Datblygu Cymru, roeddwn yn bennaeth ar Is-adran Cynllunio Ariannol lle bues yn cyfarwyddo strategaeth ariannol y llywodraeth ac yn rheoli'r adolygiadau gwariant blynyddol. Symudais i Bolisi Llywodraeth Leol cyn dod yn Gyfarwyddwr yr adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyllid, perfformiad a llywodraethiant llywodraeth leol, yn ogystal â'r gwasanaeth tân, diogelwch cymunedol, argyfyngau sifil posibl a materion diogelwch cenedlaethol.

Cyfarwyddais y paratoadau ar gyfer Brexit heb gytundeb ac fe'm penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn 2020 i gydgysylltu'r ymateb trawslywodraethol i Bandemig Covid ac, yn fwy diweddar fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol

**Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu, Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol**

Penodwyd Tim yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Medi 2022. Cyn hynny roedd yn Brif Weithredwr yn y Swyddfa Eiddo Deallusol, lle bu'n gyfrifol am gynghori'r Gweinidogion ar holl faterion polisi Eiddo Deallusol ac am weithredu'r Swyddfa. Daeth Tim i'r IPO o Dŷ'r Cwmnïau lle'r oedd yn Gofrestrydd Cwmnïau Cymru a Lloegr ac yn Brif Weithredwr. Bu'n gweithio yn Nhŷ'r Cwmnïau o 2002 lle bu ganddo lawer o swyddi uwch o fewn y sefydliad. Roedd ei bortffolio gwaith helaeth yn cynnwys arwain ar yr agenda ddigidol, cyflawni gweithredol, strategaeth fusnes a pholisi corfforaethol. Bu Tim hefyd yn llywydd y Fforwm Cofrestrau Corfforaethol (cymdeithas o dros 60 o gofrestrfeydd ledled y byd) rhwng 2013 a 2017. Mae gyrfa Tim hefyd yn cynnwys 12 mlynedd mewn rolau gweithredol uwch yn y diwydiant gweithgynhyrchu; mae ganddo radd Gwyddorau Naturiol o Brifysgol Caergrawnt, MBA o Brifysgol Abertawe ac mae'n byw ar fferm yn Ne Cymru ac yn briod â dau o blant. Dyfarnwyd CBE iddo yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2016 am ei wasanaethau i'r economi a phobl Abertawe.

**Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**

Sioned yw Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau yn Llywodraeth Cymru. Mae'n arwain tîm sy'n gyfrifol am gefnogi busnesau, meithrin cydberthnasau a datblygu a gwella effaith cyfleoedd buddsoddi lleol. Mae Busnes a Rhanbarthau yn gartref i lwyfan Busnes Cymru ac yn noddwr y Llywodraeth ar gyfer Banc Datblygu Cymru a Chwmni Egino (Trawsfynydd) lle mae Sioned yn aelod o'r Bwrdd. Hi yw Uwch Berchennog Cyfrifol y Llywodraeth dros Fargeinion Dinesig a Thwf Cymru

Tan fis Mehefin 2019, roedd Sioned yn Brif Swyddog Gweithredol yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn gyfrifol am roi gwerth £300 miliwn o raglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar waith yng Nghymru ac am lunio a chynnal polisïau datblygu economaidd rhanbarthol a'r rhaglenni i'w cynnal ar ôl cyfnod pontio'r UE.

A hithau â chefndir fel Syrfëwr Siartredig, mae gan Sioned dros 25 mlynedd o brofiad ym maes cyflawni prosiectau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae yn gyn aelod o Fwrdd Llywodraeth Cymru ac yn gadeirydd Pwyllgor Gweithrediadau Llywodraeth Cymru. Mae Sioned yn Gyfarwyddwr ar Fusnes Rhyngwladol Cymru, yn Bennaeth Proffesiwn (Tirfesur) Llywodraeth Cymru ac yn hyfforddi ac yn mentora uwch swyddogion ar draws y sector cyhoeddus a hynny yn Gymraeg a Saesneg.

**Cynllun cyfweliad Hyderus o ran Anabledd**

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd).

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost i RecriwtioUWS@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch anghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfa.

**Gweithle Gwych i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog**

Mae'r swydd wag hon yn rhan o'r cynllun Geithle Gwych i Gyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog .

**Cymwyseddau**

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos bod ganddynt yr holl sgiliau arwain a'r sgiliau craidd y mae disgwyl i Uwch Weision Sifil feddu arnynt fel rhan o fframwaith cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am gymwyseddau craidd yn y ddogfen lawn sydd i'w gweld yma.

**Cod y Gwasanaeth Sifil**

Mae disgwyl i bob gwas sifil ymddwyn yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil. Gweler Atodiad B.

**Amserlen fras**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **14 Rhagfyr 2022 am 23:55**

Cyfarfod Rhestr Fer: **19 Rhagfyr 2022**

Profion seicometrig: o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod rhestr fer

Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Staff : **19 Ionawr 2023**

Sgwrs Gartrefol: **Canol - diwedd Ionawr 2023**

Panel cyf-weld: **Dechrau mis Chwefror 2023**

**Caiff yr holl asesiadau uchod eu cynnal o bell trwy Microsoft Teams. Gallai'r dyddiadau uchod newid.**

## 9. Telerau'r Penodiad

Mae hon yn swydd barhaol. Mae ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth deg ac agored) ar sail symud ar draws neu ddyrchafiad. Mae'r swydd hon hefyd ar gael i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail benthyg, neu ar sail secondiad am hyd at ddwy flynedd i ddechrau.

### Cymhwysedd

Gofynnir nifer o gwestiynau ichi fel rhan o'ch cais. Diben y cwestiynau hyn yw pennu a ydych yn gymwys i wneud cais am y cyfle hwn. Gofynnir ichi gadarnhau manylion eich cenedligrwydd, fel rhan o'ch cymhwysedd, a chadarnhau bod hawl gyfreithiol gennych i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hwn yn un o'r gofynion ar gyfer gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y'u nodir yn y ffurflen gais, ni fydd eich cais yn mynd ymhellach. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, mae'n bosibl y bydd eich cais neu'ch cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

### Gofynion cenedligrwydd

*Mae'r swydd hon yn agored yn fras i'r grwpiau canlynol:*

- *Gwladolion y DU*
- *gwladolion o wledydd y Gymanwlad sydd â'r hawl i weithio yn y DU*
- *gwladolion Gweriniaeth Iwerddon*
- *gwladolion o'r UE, yr AEE neu'r Swistir sydd â statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau* *Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)*
- *gwladolion perthnasol o'r UE, AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil*
- *gwladolion perthnasol o'r UE, AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi ennill yr hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil*
- *rhai aelodau o'r teulu o wladolion perthnasol yr UE, AEE, y Swistir neu Dwrci*

*Rhagor o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd*

### Cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r rôl ar lefel Cyfarwyddwr ac mae'r **cyflog cychwynnol tua £95,000.**

### Gweithwyr sydd eisoes yn weision sifil

Os ydych eisoes yn **Gyfarwyddwr** sy'n ymgeisio ar sail symud ar draws i Lywodraeth Cymru, byddwch yn cadw eich cyflog presennol.

Os ydych yn was sifil sy'n gwneud cais am ddyrchafiad bydd y cyflog cychwynnol ar ôl y dyrchafiad yn golygu cynnydd o 10% i'r cyflog sylfaenol neu bydd ar lefel isaf y band cyflog, pa un bynnag sydd uchaf. Er hynny, bydd staff sy'n cael dyrchafiad o uchafswm band cyflog Gradd 6 yn gweld cap o 5% ar y cynnydd, neu bydd ar lefel isaf band cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil, pa un bynnag sydd uchaf.

**Secondiad** - Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau ac amodau presennol, gan gynnwys cyflog.

**Oriau gwaith**

Croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n amser llawn, yn rhan-amser, neu fel rhan o drefniant rhannu swydd. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, disgwylir bod y trefniant hwn yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais a dylech sicrhau ei bod yn glir yn eich ffurflenni cais eich bod yn ymgeisio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ac os bydd rhywun sydd am weithio'n rhan-amser yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud addasiadau cymesur i gyfrifoldebau'r swydd.

**Lleoliad**

Gallwch weithio o unrhyw un o bedair swyddfa Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – sef yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Er hynny, mewn argyfwng bydd gofyn ichi gyrraedd safle swyddfa Caerdydd yn brydlon.

Mae natur y swydd yn golygu bod disgwyl ichi deithio ledled Cymru a threulio amser yng Nghaerdydd ar gyfer digwyddiadau penodol ac am gyfnodau hir o bosibl.

Mae'r rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio gartref/yn gweithio o bell ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau i ryw raddau er mwyn inni allu lleihau ein heffaith amgylcheddol a chefnogi pobl i weithio'n agosach at y cymunedau lle maent yn byw.

**Costau adleoli**

Mae'n bosibl y bydd costau adleoli o hyd at £8,000 ar gael.

**Gweithio'n Glyfar**

Mae Llywodraeth Cymru yn hybu Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu ystyried sut yr ydych yn defnyddio'ch amser a ble a sut yr ydych yn gweithio, er mwyn diwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf hyblyg a chynhyrchiol. Mae hyn yn rhoi cryn hyblygrwydd i staff, a'r disgwyl yw y bydd timau'n gweithio gartref am ganran uchel o'r amser hyd y gellir rhag-weld. Mae gweithio clyfar a hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol o fywyd gwaith yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth.

**Gwyliau blynyddol**

Hyd gwasanaeth

- Hyd at 1 flwyddyn – hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 1 flwyddyn – hyd at 2 flynedd – hawl i 26 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 2 flynedd – hyd at 3 blynedd – hawl i 27 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 3 blynedd – hyd at 4 blynedd – hawl i 28 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 4 blynedd – hyd at 5 mlynedd – hawl i 29 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 5 mlynedd neu ragor – hawl i 30 diwrnod o wyliau blynyddol.

Os yw gweithiwr sydd eisoes yn was sifil yn cael ei ddyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu oddi fewn iddo, bydd ei hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar hyd ei gyflogaeth barhaus yn y Gwasanaeth Sifil, fel y gwelir uchod.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil sydd wedi cael eu diweddaru.

**Ymddeol**

Nid oes oedran ymddeol gorfodol ar gyfer Uwch Weision Sifil.

**Telerau a Buddion**

Cynllun Pensiwn: https://www.civilservicepensionscheme.org.uk

• Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.

• Darpariaethau absenoldeb, gan gynnwys:

– Absenoldeb gofalwyr;
– Absenoldeb mamolaeth â thâl a heb dâl;
– Absenoldeb tadolaeth hyblyg â thâl;
– Absenoldeb mabwysiadu hyblyg â thâl;
– Absenoldeb rhieni wedi'i rannu.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o'u rhan eu hunain ac o ran eu priod neu eu partner.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff ei fuddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

**Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol**

Daw'r swydd hon o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

**Amrywiaeth a Chydraddoldeb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, cael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol (MESN); Materion y Meddwl (iechyd meddwl a llesiant); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

**Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil**

Mae prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel a nodir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion Recriwtio ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â RecriwtioUWS@llyw.cymru yn y lle cyntaf.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch oddi wrth Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

**Lefel diogelwch**

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gael ei fetio i lefel Fetio Uwch (DV) yn syth ar ôl ymgymryd â'r swydd.

**Atodiadau**

Atodiad A: DATGANIAD ARWEINYDDIAETH Y GWASANAETH SIFIL
Atodiad B: COD Y GWASANAETH SIFIL